Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales

hefcw

Datganiad i'r wasg

Dyddiad: 25 Hydref 2006

Teitl: Gweinidog yn lansio'r Nod Ansawdd Ymadawyr Gofal cyntaf ar gyfer Cymru

Mae ein prifysgolion yn nodi lansiad Nod Ansawdd Ymadawyr Gofal newydd ym maes addysg uwch drwy gynnal cynhadledd ar 22 Tachwedd 2006 yng Nghanolfan Mileniwm Cymru yng Nghaerdydd.

Mae Ymddiriedolaeth Frank Buttle, sy'n darparu grantiau a chymorth i alluogi pobl ifanc i ymgymryd â chyrsiau mewn prifysgolion a sefydliadau addysg uwch eraill, wedi creu Nod Ansawdd sy'n cydnabod sefydliadau sy'n gwneud ymdrech ychwanegol i helpu myfyrwyr a fu mewn gofal cyhoeddus.

Caiff y Nod Ansawdd ei lansio gan Weinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau Llywodraeth Cynulliad Cymru yn y gynhadledd Plant Dan Ofal ac Ymadawyr Gofal y mis nesaf.

Meddai Jane Davidson, y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau:

"Gwyddom y gall y sialensiau a wynebir gan bobl ifanc mewn gofal fod yn wahanol iawn i'r rheiny a wynebir gan y mwyafrif o fyfyrwyr. Heb y gefnogaeth emosiynol ac ariannol a ddarperir fel rheol gan deuluoedd, gall pobl sy'n gadael gofal feddwl bod cymwysterau addysg uwch y tu hwnt i'w cyrraedd. Mae'r Nod Ansawdd hwn yn cydnabod ymdrechion ein sefydliadau addysg uwch i sicrhau bod cymorth ychwanegol ar gael i bobl ifanc a fu mewn gofal i'w helpu i wynebu'r sialensiau hyn."

Meddai'r Athro Phil Gummett, Prif Weithredwr Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru:

“Mae lansio’r Nod Ansawdd yn y gynhadledd Plant Dan Ofal ac Ymadawyr Gofal yn bwysig nid yn unig o ran codi proffil plant dan ofal mewn addysg uwch yng Nghymru ond hefyd o ran annog pawb i gydweithio i oresgyn yr anfanteision a wynebant. Bydd y gynhadledd yn tynnu sylw at y gwaith a wneir eisoes yng Nghymru gan sefydliadau addysg uwch a’r Partneriaethau Ymgyrraedd yn Ehangach, ac yn darparu gwybodaeth bellach am y Nod Ansawdd.”

Diwedd

I gael rhagor o wybodaeth cysyllter â:
CCAUC: Emma Raczka, Rheolwr Cyfathrebiadau, 029 2068 2225
emma.raczka@hefcw.ac.uk

Mae **Ymddiriedolaeth Frank Buttle** wedi gweithio mewn partneriaeth â Phrifysgolion y DU, Cynhadledd Sefydlog y Prifathrawon, Cymdeithas y Colegau a’r Gymdeithas Rheolwyr Gwasanaethau Myfyrwyr mewn Addysg Uwch, i ddatblygu Ymrwymiad i Ymadawyr Gofal mewn Addysg Uwch. Mae’r Ymrwymiad hwn yn cynnwys siarter y gall darparwyr addysg uwch ei fabwysiadu i ddangos eu hymrwymiad i gefnogi pobl sy’n gadael gofal. Cynhyrchwyd yr Ymrwymiad yn sgil gwaith ymchwil dros gyfnod o bum mlynedd, *By Degrees: “From Care to University”*, a gomisiynwyd gan yr Ymddiriedolaeth i asesu profiad y rheiny sy’n mynd i brifysgol ar ôl bod mewn gofal. Dangosodd yr adroddiad terfynol, “ Going to university from care”, i’r rhai a lwyddodd wneud hynny er gwaethaf pob anhawster, o ran y cymorth a gawsant cyn mynd i’r brifysgol a’r gefnogaeth a oedd ar gael yn ystod eu cwrs.

http://www.buttletrust.org/ - “Wedi’i sefydlu ym 1937, ac yn weithgar ers 1953, Ymddiriedolaeth Frank Buttle yw’r elusen fwyaf yn y DU sy’n rhoi cymorth grant i blant unigol a phobl ifanc sydd mewn dirfawr angen. Ers dros hanner canrif, mae’r Ymddiriedolaeth wedi helpu miloedd lawer o blant, pobl ifanc a theuluoedd ar hyd a lled y DU.”

Cynllun ehangu mynediad a reolir gan CCAUC yw **Ymgyrraedd yn Ehangach**. Ei nod yw gwella sgiliau dysgu a dyheadau addysgol er mwyn galluogi rhagor o ddisgyblion o oed ysgol ac oedolion i astudio yn y brifysgol neu’r coleg. Mae Ymgyrraedd yn

Ehangach yn cynnig amrywiaeth helaeth o raglenni arloesol i'w helpu i ddysgu medrau newydd ac i astudio â hyder. Cynhelir cannoedd o ddigwyddiadau bob blwyddyn ledled Cymru, mewn ysgolion, colegau, prifysgolion a chymunedau lleol.

Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad yw **Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru** (CCAUC). Fe'i sefydlwyd ym mis Mai 1992 a daeth yn gyfrifol am gyllido addysg uwch yng Nghymru ar 1 Ebrill 1993.

O dan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, mae'r Cyngor yn gyfrifol am weinyddu'r cyllid a roir gan y Cynulliad i gynnal yr addysg a ddarperir a'r ymchwil a wneir gan sefydliadau addysg uwch a chyrsiau addysg uwch penodedig a ddarperir mewn sefydliadau addysg bellach.

O dan Ddeddf Addysg 1994, mae'r Cyngor yn gyfrifol am achredu darparwyr hyfforddiant cychwynnol ar gyfer athrawon ysgol ac am gomisiynu ymchwil i wella safonau athrawon a hyfforddiant athrawon.

Yn ogystal â'i gyfrifoldebau cyllido, mae'r Cyngor yn cynghori Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar anghenion ariannol, dyheadau a phryderon y sector addysg uwch yng Nghymru.